

Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd






Pecyn Ymgysylltu

# Cynnig Parth Parcio Gabalfa

This document is available in Welsh / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg

CRYFACH TECACH GWYRDDACH | STRONGER FAIRER GREENER

CARDIFF CAERDYDD

Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

**Cynnig Parth Parcio Gabalfa**



# Pecyn Ymgysylltu - Cefndir

**Pan wnaethom ddatblygu ein cynigion ar gyfer beicffordd 1.2, gwnaethom gyflwyno nifer o Barthau Parcio yn yr ardal i helpu i reoli'r parcio ger y beicffordd yn well. Gwnaethom alw'r Parthau Parcio hyn yn "C1", "C2", "C3" a "C4". Roedd Parth Parcio C4 yn cwmpasu'r ffyrdd yng Ngabalfa rhwng Heol yr Eglwys Newydd a Heol Allensbank, fel Clodien Avenue, Manor Street ac Inglefield Avenue.**

Mae adborth wedi nodi bod y Parthau Parcio hyn wedi helpu **i ddiogelu parcio i breswylwyr, busnesau a grwpiau cymunedol,** ac wedi helpu i **sicrhau bod cerbydau'n cael eu parcio'n gyfrifol.**


Ers eu cyflwyno, rydym wedi **derbyn ceisiadau** gan drigolion a busnesau mewn ardaloedd cyfagos yng Ngabalfa i gael eu **cynnwys hefyd mewn cynllun Parth Parcio.**

Mae'r ddogfen hon yn nodi ein cynigion i **ymestyn parcio fesul parth** yng Ngabalfa i wella amodau parcio ar gyfer y gymuned leol.

Mae'r cynlluniau yn y ddogfen hon yn lluniau dangosol wedi'u symleiddio i ddangos y cynigion **cyfredol** sy'n cael eu datblygu.

> Mae gwybodaeth am Sut i Ymateb ar gael ar ddiwedd y ddogfen hon, ynghyd â Chwestiynau Cyffredin. Byddwn yn defnyddio unrhyw adborth a geir i fireinio'r cynigion i fwrw ymlaen â dyluniad manwl.

## • Parthau Parcio Presennol



Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

## Cynnig Parth Parcio Gabalfa





# Gwybodaeth am Barthau Parcio

## Beth yw Parth Parcio?

Mae Parth Parcio yn ardal lle caiff yr holl barcio ar y stryd ei reoli yn ystod adegau penodol, gyda mannau parcio lle ystyrir bod parcio'n ddiogel, a llinellau melyn lle gallai parcio fod yn beryglus neu achosi rhwystr. Mae arwyddion mawr yn cael eu gosod ar ffin y parth i hysbysu gyrwyr.

## Beth yw manteision PRhP?

Mae Parthau Parcio yn cynnig llawer o fanteision ac yn helpu i:

- Flaenoriaethu parcio i breswylwyr;
- Cefnogi busnesau trwy ei gwneud yn haws i gwsmeriaid ddod o hyd i barcio byrdymor addas;
- Lleihau tagfeydd;
- Gwella mynediad i'r gwasanaethau brys a cherbydau gwastraff;
- Annog pobl i deithio'n gynaliadwy; a
- Gwella'r amodau parcio i'r gymuned yn gyffredinol.







## Pryd mae Parthau Parcio yn weithredol?

Wrth barcio mewn Parth Parcio yn ystod amseroedd gweithredol, rhaid i yrwyr barcio mewn mannau dynodedig. Rydym yn pennu amseroedd gweithredu parthau yn ôl eich adborth.

**Yr amseroedd y mae PRhPau fel arfer yn berthnasol yw:**

- **8am to 6.30pm:** mae'r cynlluniau hyn yn gweithio'n dda yn y rhan fwyaf o ardaloedd ac yn gweithio'n dda wrth ddileu parcio cymudwyr wrth ganiatáu parcio anghyfyngedig gyda'r nos i ymwelwyr.
- **8am to 8pm:** mae'r cynlluniau hyn yn gweithio'n dda mewn ardaloedd lle gallai fod pobl nad ydynt yn breswylwyr yn cyrraedd i fynd i ddigwyddiadau gyda'r nos, fel gemau chwaraeon, bwytai, theatrau ac ati.
- **8am to 10pm:** mae'r cynlluniau hyn yn gweithio'n dda mewn ardaloedd lle mae parcio helaeth yn ystod y nos gan bobl nad ydynt yn breswylwyr, fel ardaloedd ger canol y ddinas neu ger stadia/arenâu. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd eraill, gall yr amseroedd hyn roi ymwelwyr dan anfantais a lleihau'r adnoddau parcio cyffredinol, gan y byddai rhai cyfyngiadau fel llinellau melyn sengl yn berthnasol yn hwy nag sydd ei angen.

diwrnodau y mae PRhPau fel arfer yn berthnasol yw:

- **Dydd Llun i Ddydd Sadwrn neu**
- **Dydd Llun i Ddydd Sul (trwy'r wythnos)**

Byddai mannau i bobl anabl a llinellau melyn dwbl yn dal i fod yn berthnasol trwy'r dydd, bob dydd.

Hoffem glywed eich barn ar yr hyn rydych yn teimlo fyddai'n fwyaf priodol ar gyfer yr ardal.



Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

Cynnig Parth Parcio Gabalfa

# Cefndir

Rydym yn datblygu'r ddarpariaeth parcio ar draws y ddinas, a byddai'r cynllun hwn yn rhan o'r cynllun cynhwysfawr hwnnw. Mae'r darpariaethau a'r newidiadau'n cynnwys mynd i'r afael â pharcio ar y stryd gan gymudwyr a pharcio rhwystrol a all rwystro llif traffig a chreu anawsterau i rai preswylwyr neu fusnesau lleol.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am Barthau Parcio yn Parthau Rheoli Parcio (PRhP) (caerdydd.gov.uk)






## Ardal Parth Parcio

Rydym yn ystyried dau opsiwn yn y lleoliad hwn, a byddem yn croesawu eich adborth ar ba opsiwn rydych chi'n meddwl fyddai'n gweithio orau i'r ardal:

- **Opsiwn A -** Byddem yn cyflwyno Parth Parcio newydd sy'n cwmpasu'r ffyrdd sy'n gyfagos i'r Parth Parcio C4 presennol. Byddai'r Parth Parcio C4 presennol yn aros yr un peth, ac eithrio y byddwn yn adolygu'r ddarpariaeth barcio o fewn y parth hwn ar wahân.
- **Opsiwn B -** Byddem yn ymestyn y Parth Parcio C4 presennol ar draws ardal ehangach.





Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

Cynnig Parth Parcio Gabalfa




# Cynnig Parth Parcio Gabalfa - Opsiwn A

## Rhagor o fanylion am Opsiwn A

Pe baem yn bwrw ymlaen ag Opsiwn A, byddem yn cyflwyno Parth Parcio newydd sy'n cwmpasu'r ffyrdd sy'n gyfagos i'r Parth Parcio C4 presennol.

Byddai'r ffyrdd o fewn y parth newydd yn cynnwys: Heol yr Eglwys Newydd, Heol Seland Newydd, Canada Road, Gerddi Affrica, Austraila Road, Newfoundland Road, Pen-y-bryn Road, Heathfield Place, Heathfield Road, Quentin Street, Matiland Street, Curll Avenue, Flaxland Avenue, Longspears Avenue, St Marks Avenue a St Marks Gardens (os oes unrhyw ffyrdd neu lonydd sy'n hygyrch o'r uchod yn unig, byddem hefyd yn cynnwys y rheini yn y parth).

Byddai'r Parth Parcio C4 presennol yn aros yr un peth, ac eithrio y byddwn yn adolygu'r ddarpariaeth parcio o fewn y parth hwn ar wahân, i weld a ellir gwneud newidiadau i nifer neu fathau'r mannau parcio sydd ar gael, a diwrnodau/amseroedd gweithredu'r parth.






Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

Cynnig Parth Parcio Gabalfa





# Pecyn Ymgysylltu Cynigion – Opsiwn B

## Rhagor o fanylion am Opsiwn B

Pe baem yn bwrw ymlaen ag Opsiwn B, byddem yn ymestyn y Parth Parcio C4 presennol i gwmpasu pob ffordd yn yr ardal.

Byddai hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ddeiliaid trwyddedau ac yn lleihau'r posibilrwydd o ddrysu gyrwyr.

Byddem yn argymell yr opsiwn hwn. 6





Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

Cynnig Parth Parcio Gabalfa

# Trwyddedau Parcio

Byddai trwyddedau'n cael eu cyflwyno i eiddo cymwys o fewn y Parth i ddarparu ar gyfer parcio hanfodol trwy gydol y dydd. Y prif fathau o drwyddedau yw:

- **Trwyddedau Preswylwyr:** Byddai preswylwyr yn gallu prynu hyd at ddwy drwydded ar gyfer cerbydau a gedwir/sydd wedi'u cofrestru yn eu cyfeiriad, a nifer o drwyddedau'r flwyddyn ar gyfer ymwelwyr.

- **Trwyddedau Busnes:** Byddai busnesau'n gallu prynu hyd at ddwy drwydded ar gyfer cerbydau sy'n hanfodol i weithredu'r busnes, a nifer o drwyddedau'r flwyddyn i ymwelwyr.

- **Trwyddedau Cymunedol:** Byddai eiddo cymunedol (fel mannau addoli cyhoeddus ac ysgolion) yn gallu prynu hyd at bedair trwydded ar gyfer cerbydau sy'n hanfodol i weithrediad yr eiddo, a nifer o drwyddedau'r flwyddyn ar gyfer ymwelwyr.

- **Trwyddedau Eraill:** Byddai crefftwyr, athrawon a gofalwyr proffesiynol (wrth ddarparu gofal i breswylwyr), yn gallu gwneud cais am drwydded wrth weithio yn y parth.











## Parcio gyda Thrwydded

Bydd deiliaid trwyddedau yn gallu parcio mewn unrhyw fan 'Deiliad Trwydded yn Unig' neu 'Defnydd a Rennir' (e.e. mannau a rennir rhwng deiliaid trwyddedau a deiliaid tocynnau, neu ddeiliaid trwyddedau ac aros cyfyngedig).

Bydd trwyddedau'n barth-benodol, gan roi'r rhyddid i ddeiliaid trwydded hunanreoli eu parcio trwy allu parcio mewn unrhyw stryd sydd ar gael yn eu parth penodol.

## Cymhwysedd Cerbydau

I fod yn gymwys i gael trwydded, byddai angen i'r cerbyd gael ei drethu a'i yswirio'n gywir, bod mewn cyflwr addas ar gyfer y ffordd, a pheidio â bod yn fwy na 3,500kg o Bwysau Refeniw (gallwch wirio'r Pwysau Refeniw ar lyfr cofrestru eich cerbyd).

## Cymhwysedd Eiddo

Ni fyddai pob eiddo yn gallu gwneud cais am drwyddedau, gan fod hyn yn ein helpu i reoli'r galw am barcio ar y stryd. Er enghraifft, ni fyddem yn rhoi trwyddedau i:

- Eiddo ar ffyrdd preifat
- Ail gartrefi/gosodiadau byrdymor (gan gynnwys Airbnb)
- Neuaddau preswyl myfyrwyr pwrpasol
- Datblygiadau â chyrtiau parcio preifat (hyd yn oed os nad oes digon o le parcio ar gyfer holl breswylwyr y datblygiad).

Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

**Cynnig Parth Parcio Gabalfa**




# Dyluniad Parth Parcio

## Sut allai'r parth edrych?

Wrth gyflwyno Parthau Parcio rydym yn dilyn dull safonol o ddylunio. Rydym fel arfer yn cyflwyno:

- "Parcio "Deiliad trwydded yn unig" y tu allan i eiddo preswyl yn unig
- Parcio talu ac aros arhosiad byr mewn ardaloedd y mae galw mawr amdanynt
- Parcio "Aros Cyfyngedig" arhosiad byr 2 awr am ddim ar strydoedd ochr ac ar ochrau ardaloedd preswyl

Byddai deiliaid trwyddedau yn gallu parcio yn y mannau talu ac aros heb docyn, a'r mannau 2 awr am ddim, cyhyd ag y bo angen. Gelwir hyn yn barcio "defnydd a rennir".

Mae'r map gyferbyn yn darparu darlun lefel uchel o sut y gellid dylunio'r parth. Darperir allwedd isod hefyd.


Byddwn yn gwneud dyluniad manwl os oes cefnogaeth gyffredinol i'r cynigion parthau parcio.




**ALLWEDD**

- Deiliaid trwyddedau yn unig
- Talu ac aros
- Aros cyfyngedig

Byddai gan bob ardal arall linellau melyn



Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

**Cynnig Parth Parcio Gabalfa**






# Cwestiynau Cyffredin

**Pam ydych chi'n cyflwyno Parthau Parcio?** Mae Parthau Parcio yn gyffredin mewn dinasoedd ledled y DU. Lle maent wedi'u cyflwyno mewn rhannau eraill o Gaerdydd, maent wedi bod yn effeithiol wrth wella amodau parcio ar gyfer cymunedau, drwy ddiogelu lle i breswylwyr, atal parcio diystyriol a sicrhau bod trosiant cerbydau, gan helpu ymwelwyr a siopwyr i'r ardal i ddod o hyd i barcio cyfleus yn haws.

**Sut bydd gyrwyr yn gwybod am y Parth Parcio?** Bydd arwyddion mynediad parth ym mhob pwynt mynediad parth, yn dangos i fodurwyr pan fyddant yn mynd i mewn ac allan o'r PRhP. Mae'r arwyddion hyn wedi'u lleoli i wynebu traffig sy'n dod i mewn i'r ardal. Mae gan bob man parcio hefyd blatiau arwyddion sy'n dangos y cyfyngiad a'r oriau rheoli.

**A fyddai trwydded yn gwarantu lle parcio?** Nod ein cynigion parcio yw helpu i atal cymudwyr rhag parcio a pharcio drwy'r dydd, a thrwy hynny gynyddu argaeledd mannau parcio. Fodd bynnag, nid yw trwyddedau byth yn gwarantu lle parcio, ac nid yw cynlluniau parcio'n gallu datrys pob problem barcio.

**Ble bydd ymwelwyr yn gallu parcio?** Bydd preswylwyr a busnesau yn gallu prynu nifer o dalebau ymwelwyr ar gyfer eu hymwelwyr, a fydd yn eu galluogi i barcio yn y parth yn ystod oriau gweithredol. Fel arall, gall ymwelwyr hefyd ddefnyddio unrhyw un o'r mannau aros cyfyngedig, neu'r mannau talu ac aros yn yr ardal i barcio am yr amser a nodir ar yr arwyddion yn ystod yr oriau gweithredol.

**A fydd rhaid i mi dalu i barcio?** Wrth barcio mewn Parth byddai angen trwydded parcio neu docyn talu ac aros arnoch fel arfer. Codir tâl am drwyddedau a thocynnau. Efallai y bydd parcio am ddim am gyfnodau byr ("aros cyfyngedig") yn cael ei gyflwyno mewn rhai ardaloedd preswyl, ond byddai parcio fel arfer yn cael ei gyfyngu i uchafswm arhosiad o naill ai 1 neu 2 awr.

**Faint fyddai parcio yn ei gostio?** Byddai costau trwyddedau yn gyson â'r rheini sydd eisoes ar waith ledled y ddinas. Byddai parcio talu ac aros yn costio £1.50 yr awr. Er mwyn caniatáu i yrwyr alw heibio i siopau a busnesau lleol, byddai'r 1 awr gyntaf o barcio am ddim (gyda thocyn am ddim). Byddai deiliaid bathodynnau glas yn gallu parcio mewn mannau talu ac aros am ddim cyhyd ag y bo angen wrth arddangos eu bathodyn glas.

**Pam na all pob parcio fod am ddim?** Mae cynlluniau parcio yn costio llawer o arian i'w gweithredu, eu cynnal a'u gorfodi. Byddai cynnig parcio am ddim yn golygu bod y Cyngor yn sybsideiddio'r defnydd o gerbydau preifat dros drafnidiaeth gyhoeddus, ar gost i'r trethdalwr. Mae costau parcio hefyd yn ein helpu i reoli'r galw am barcio. Gall darparu parcio am ddim gynyddu'r galw, gan wneud tagfeydd ac ansawdd aer yn waeth.

**Mae llinellau melyn yn rhoi llai o le i ni barcio. Pam eu cael?** Byddwn ond yn gosod llinellau melyn i helpu llif rhydd traffig, a lle byddai cerbydau wedi'u parcio yn achosi perygl neu'n rhwystro modurwyr neu gerddwyr eraill sy'n defnyddio'r briffordd. Rydym yn gosod llinellau melyn dim ond lle maen nhw'n angenrheidiol.

**Mae gen i fathodyn glas, ble fydda i'n gallu parcio?** Byddai deiliaid bathodynnau glas yn gallu parcio mewn unrhyw fannau deiliaid bathodynnau anabl, mannau aros cyfyngedig, mannau talu ac aros, a mannau defnydd a rennir cyhyd ag y bo angen, wrth arddangos eu bathodyn glas yn gywir. Byddai deiliaid bathodynnau glas hefyd yn gallu parcio am hyd at dair awr mewn mannau deiliaid trwydded yn unig ac ar linellau melyn (ar yr amod nad oes cyfyngiadau llwytho mewn grym).

**Beth yw man parcio "defnydd a rennir"?** Gall deiliaid trwydded a'r rheini sy'n byw y tu allan i'r parth ddefnyddio'r mannau hyn. Nid oes unrhyw gyfyngiad ar hyd yr arhosiad i ddeiliaid trwydded, ond mae gan barcio i'r rheini sy'n byw y tu allan i'r parth uchafswm cyfnod aros, a fydd yn cael ei arddangos ar yr arwydd. Mae parcio defnydd a rennir yn cefnogi busnesau ac yn galluogi ymwelwyr i gael mynediad at amwynderau lleol.

**A fyddaf yn gallu parcio ar draws fy nreif?** Fel arfer, ni fyddwn yn cyflwyno cyfyngiadau parcio fel llinellau melyn ar draws dreifiau, gan fod hyn wedyn yn caniatáu i breswylwyr barcio ar draws eu dreif. Lle mae dreifiau a rennir (er enghraifft dreif i mewn i faes parcio ar gyfer bloc o fflatiau) yna byddwn fel arfer yn cyflwyno un llinell felen o'i blaen i ddiogelu mynediad.

**Sut mae Parthau Parcio'n cael eu gorfodi?** Byddai Parthau Parcio yn cael eu patrolio gan Swyddogion Gorfodi Sifil a all gyflwyno Hysbysiadau Tâl Cosb (HTCau) i unrhyw gerbydau sydd wedi parcio'n groes i'r cyfyngiadau.

**A fyddai ymgynghori pellach?** Os oes digon o gefnogaeth yna byddem yn dechrau'r broses gyfreithiol i greu Gorchymyn Rheoli Traffig (GRhT) a fydd yn ein galluogi i gyflwyno'r trefniadau newydd a sicrhau bod modd eu gorfodi. Byddech yn gallu gweld dyluniadau manwl, yn ogystal â rhoi sylwadau/gwrthwynebiadau pellach, fel rhan o'r broses hon.

**Pryd fyddai'r Parth Parcio yn cael ei gyflwyno?** Os oes cefnogaeth i'n cynigion, byddem yn anelu at gyflwyno'r parth newydd ar gyfer HAF 2027. Mae hyn oherwydd bod y tywydd yn gyffredinol yn well, felly mae'n haws paentio a gosod y marciau ffordd sy'n angenrheidiol i wneud y parthau newydd yn orfodadwy. Efallai y byddwn yn darparu'r parth mewn camau llai, yn dibynnu ar ofynion cyllido ac adborth lleol.




Trawsnewid
Trafnidiaeth
Caerdydd

CRYFACH
TECACH
GWYRDDACH

STRONGER
FAIRER
GREENER

CARDIFF
CAERDYDD